

## PWYLLGOR CRAFFU - GOFAL

|               |                                                                                             |
|---------------|---------------------------------------------------------------------------------------------|
| TEITL         | Strategaeth Tai 2019-24 (Drafft Ymgynghorol)                                                |
| PWRPAS        | Diweddarau aelodau ar cynnydd a rhannu copi or drafft ymgynghorol ar gyfer sylwadau pellach |
| AWDUR         | Arwel Wyn Owen                                                                              |
| AELOD CABINET | Cyng Craig ab Iago                                                                          |
| DYDDIAD       | 28 o Fawrth 2019                                                                            |
|               |                                                                                             |

### 1.0 Cyd-destun

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol lunio Strategaeth Tai ar gyfer ei hardal bob 5 mlynedd. Mae'r Strategaeth Tai yn gyfle i adnabod ffactorau sy'n dylanwadau ar y galw am Dai ac i amlinellu blaenoriaethau y Cyngor a'r modd y bydd yn ceisio cyflawni'r amcanion strategol fel yr awdurdod tai lleol.

Mae'r Strategaeth Dai yn gosod allan cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer uchafu y cyflawniad yn y maes ac yn amlinellu'r adnoddau ariannol rydym yn gobeithio ei ddenu i gyrraedd yr uchelgais.

Mae gweledigaeth y Strategaeth Tai yn gyson gyda gweledigaeth sy'n cael ei hamlinellu yng Nghynllun Strategol Cyngor Gwynedd ar gyfer 2019-24 ac yn allweddol i helpu cyrraedd y weledigaeth. Mae'n amlinellu cynigion tai amrywiol, arloesol, a gwyrdd, sy'n hyrwyddo atebion gydol oes a chefnogaeth gynnar i'r rhai sydd ei angen. Gyfochr a hyn mae uchelgais i sicrhau bod ffyniant yn y maes tai yn cael ei gynllunio yn iawn, yn cael ei weithredu mewn ffordd sydd yn gynaliadwy i'r dyfodol, yn hybu cydraddoldeb cymdeithasol ac yn uchafu cyfleoedd ar gyfer datblygu arloesol.

Mae Strategaeth Tai Gwynedd yn cadarnhau uchelgais hir dymor, yn ogystal a blaenoriaethau clir ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Er bod ein anghenion tai yn gallu newid ar gyfnodau gwahanol yn ystod ein bywyd, yr hyn sy'n gyson yw'r angen i fyw mewn cartrefi a chymunedau sydd yn **ddiogel**, ac sydd yn galluogi i fyw bywydau llawn a iach ac annibynnol.

Un o'r heriau mwyaf ar hyn o bryd, yw sicrhau bod cyflenwad digonol o dai fforddiadwy ac addas, sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, ac o safon i gyfarch anghenion poblogaeth sydd yn newid. Mae'r angen am dai sy'n wirioneddol fforddiadwy wedi ei adnabod fel un o'r prif flaenoriaethau

Bwriad y Strategaeth hon yw gosod fframwaith i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau cywir ar gyfer darparu cartrefi i bobl Gwynedd a gwneud y defnydd gorau o adnoddau prin i wella darpariaeth ar draws y Sir. Rydym yn ymwybodol

bod materion tai, iechyd, gofal a llesiant yn uchel iawn ar restr blaenoriaethau llywodraeth Cymru. Golyga fod yna gyfle euraidd i'r Strategaeth Tai wneud gwahaniaeth dros y blynyddoedd nesaf. Er mwyn manteisio yn llawn bydd yn rhaid i'r Strategaeth hon fod yn ddogfen fyw all ymateb i'r gwahanol gyfleon all godi i'r dyfodol. Byddwn felly yn cydweithio yn agos gyda'r Cymdeithasau Tai a phartneriaid eraill i fonitro cynnydd ac i addasu'r blaenoriaethau .

## **2.0 Gweithredu**

Fe fu cyfle i drafod rhai o flaenoriaethau a chynlluniau datblygu y Strategaeth Tai gyda aelodau o'r Pwyllgor Craffu – Gofal yn ei cyfarfod diwethaf. Mae'r sylwadau hynny wedi hystyried wrth ddatblygu cynnwys y strategaeth ac elfennau wedi haddasu.

Gofynnwn i aelodau ystyried y cynnwys y Strategaeth ymhellach cyn bod y ddogfen yn cael ei chyflwyno ger bron y Cabinet a'r Cyngor llawn ar gyfer ei mabwysiadu yn ffurfiol.